**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 19eg Tachwedd 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Fairhead | Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Tynnwyd sylw'r Cadeirydd at fater brys i'w drafod yn rhan II ynglŷn â phrosiect Wrecsam, a'r cyfarfod hwn oedd y cyfle cyntaf a gafwyd i godi'r mater gydag Aelodau'r Panel Gweithredol.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17EG MEDI 2012

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Medi eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2013-14

5.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2013/14.

5.2 Cafodd yr Aelodau wybod am yr ohebiaeth ddiweddar a ddaeth i law ynglŷn â'r arian grant uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cafwyd cadarnhad fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r arian grant ar gyfer mentrau Lleihau Risgiau Cymunedol yn 2012-13, ac eithrio arian ar gyfer Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd ac arian ar gyfer Partneriaethau Cymunedol. Ni chafwyd unrhyw arwydd o arian grant ar gyfer unrhyw flynyddoedd yn y dyfodol, a nodwyd nad oedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14 yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol i gefnogi'r gweithgareddau sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu hariannu trwy grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

5.3 Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn wedi dod i'r amlwg, sef yr elfen bensiynau o'r Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol). Roedd y Swyddogion wrthi'n ceisio eglurhad ar y modd i gyfrifo darpariaeth ddarbodus ar gyfer yr ymrwymiad hwn.

5.4 Yn dilyn y cyhoeddiad ar 16eg Hydref ynglŷn â'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol, ni fydd yn ofynnol i ATAGC ailedrych ar hyn o bryd ar ei ragdybiaethau o ran cynllunio ariannol. Esboniodd y Trysorydd fod y Gweinidog yn cynnig brigdorri'r cyllid ar gyfer prosiectau ar y cyd drwy Gymru, a gallai hyn gynyddu. Bydd yr Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

5.5 I ateb cwestiwn gan y Cyng. McGuill ynglŷn â llwyth gwaith mewn perthynas â thraffig ar y ffyrdd, cadarnhaodd y PST nad oedd yr arian grant yn cael ei wario ar gefnogi gweithgarwch yr ochr weithredol ond yn hytrach ar wahanol fentrau ac ymyriadau, a hynny yn bennaf gyda phobl ifanc er mwyn tynnu sylw at y peryglon sydd ynghlwm â gyrru. Hefyd, eglurodd y PST nad wedi gwrthod rhoi'r arian grant ar gyfer mentrau diogelwch ar y ffyrdd yr oedd Llywodraeth Cymru, dim ond heb ei gadarnhau eto, er ein bod wyth mis i mewn i'r flwyddyn ariannol.

5.6 Hefyd, cadarnhaodd y PST fod dyletswydd statudol, er nad un penodol, ar yr Awdurdod i wneud darpariaeth ar gyfer achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac i amddiffyn pobl rhag niwed difrifol, ac mae hyn yn awgrymu addysgu pobl a darparu cymorth a chefnogaeth. Felly, yr Awdurdod fydd yn penderfynu ar lefel y gweithgarwch sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon.

5.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub y dylid mynd ar ôl y dull y cytunwyd arno eisoes ar gyfer sicrhau'r arbedion hynny;**

**(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14;**

**(iii) derbyn rhagor o wybodaeth os oes datblygiadau pellach mewn perthynas â'r risgiau posibl hynny.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a monitro perfformiad o'i gymharu ag amcanion gwella. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â hanner cyntaf blwyddyn adrodd 2012/13, sef y cyfnod rhwng 1$^{af}$ Ebrill a 30$^{ain}$ Medi 2012.

6.2 Esboniodd y DBST fod y rhan gyntaf yn adrodd am y perfformiad o'i gymharu ag amcan gwella 1, sef helpu pobl a chymunedau i atal tanau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

6.3 Er bod y ffigurau hanner blwyddyn a oedd yn ymwneud ag amcan 1 yn uwch o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, roedd modd gweld, o edrych ar y ffigurau cyfartalog dros y blynyddoedd diwethaf, fod gwelliant ar y cyfan. Er bod 12% o gynnydd yn y tanau damweiniol mewn cartrefi, derbynnid nad oedd union nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi cynyddu'n fawr, sef o 196 y llynedd i 220 eleni.

6.4 Roedd mwy o bobl wedi llwyddo i ddianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi, gan ddangos bod preswylwyr wedi cael rhybudd cynnar gan larwm mwg ac wedi creu cynllun dianc yn arbennig ar gyfer eu hanghenion hwy.

6.5 Da oedd nodi bod 34% o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu cynnal yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni; ac mae hyn yn fwy na tharged y Gwasanaeth ei hun, sef 25%.

6.6 Bu gostyngiad o 14% yng nghyfanswm nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt. Roedd y Gwasanaeth wedi mynd at 3,497 o ddigwyddiadau, ac mae hyn lawer yn llai nag yn y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau gwasanaethau arbennig (nad ydynt yn danau) yr aethpwyd atynt – roedd hyn oherwydd cynnydd yn y digwyddiadau yn ymwneud â llifogydd.

6.7 Bu gostyngiad hefyd o 33% neu 566 yn llai o danau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a gellid priodoli hyn yn rhannol i'r cyfnod hir o dywydd gwlyb a gafwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012, yn ogystal â'r parhad yn y gweithgareddau ataliol ym maes diogelwch tân a wnaed gan y Gwasanaeth.

6.8 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ASESU GWELLIANNAU

7.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Lisa Williams a Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynwyd y llythyr Asesu Gwelliannau i'r Aelodau gan Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru.

7.2 Roedd y llythyr gwelliannau yn rhoi crynodeb o gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'i ymrwymiadau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus a'r cynnydd mewn perthynas â'r meysydd ar gyfer gwella a'r argymhellion a nodwyd yn flaenorol. Roedd y llythyr hefyd yn darparu sylwebaeth gryno ar faterion perthnasol a ddaeth i'r amlwg ers yr adroddiad cyntaf a oedd yn cynnwys sylwadau ar y modd yr oedd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'i heriau ariannol.

7.3 Cadarnhaodd Ms Williams fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ei fodloni bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio gwelliannau dan y Mesur, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn credu, ar sail y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan fod y trefniadau ar gyfer cynllunio busnes wedi bwrw gwreiddiau, yn darparu darlun eglur o'r camau gweithredu sydd yn yr arfaeth, ac yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau. Nodwyd bod yr Awdurdod, yn ystod 2012-13, yn bwriadu adolygu ei ddull o adrodd am berfformiad er mwyn cynnwys cynnydd o'i gymharu ag amcanion ar gyfer gwella.

7.4 Roedd adroddiad yn ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi. Roedd yr adroddiad hwn yn llunio cynigion newydd ar gyfer gwella, sef parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol i hyrwyddo dulliau trafod â'r cyhoedd ac i ddatblygu dulliau o ddefnyddio a gwerthuso'n ehangach ganlyniadau gweithgarwch ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi'r llythyr Asesu Gwelliannau.**

8 GOHEBIAETH AM Y PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR

8.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r ohebiaeth a ddaeth i law yn ddiweddar ynglŷn â'r ddarpariaeth Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr (ALPs).

8.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi penderfynu ar 18fed Hydref 2010 i fabwysiadu safon cyrraedd 30 munud ar gyfer y peiriannau ysgol ac esgynlawr yng Ngogledd Cymru, a byddai hyn, o ganlyniad, yn gostwng nifer y peiriannau ysgol ac esgynlawr sydd yn y Gwasanaeth o bedwar i dri. Felly, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 19fed Mawrth 2012, a'r peiriant hynaf ar fin dod i derfyn ei oes, penderfynodd yr Aelodau leoli'r tri pheiriant sydd ar ôl ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam.

8.3 Daeth gohebiaeth i law gan wahanol grwpiau yn ardal Llandudno mewn perthynas â phryderon parhaus ynglŷn â symud y peiriant o orsaf dân Llandudno. Roedd y PSTC Claydon wedi ymateb i bob llythyr, gan ddatgan bod GTAGC yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd â'r adnoddau priodol at argyfyngau yn y modd cyflymaf posibl bob amser.

8.4 Roedd y llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref y Bermo yn ymwneud â phresenoldeb peiriant ysgol ac esgynlawr mewn digwyddiad yn y Bermo. Eto, cadarnhaodd y PSTC Claydon ei fod wedi ymateb i'r llythyr gan ddarparu atebion i'r materion a godwyd, yn ogystal â rhoi sicrwydd fod y rheolwyr wedi cymryd y camau priodol. I ateb cwestiwn gan y Cyng. Pemberton ynglŷn â digwyddiad pryd yr aeth peiriant cyffredin ato, cadarnhaodd y PSTC Claydon fod yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gael y peiriant cyffredin hwnnw i ymdrin â'r digwyddiad penodol hwnnw.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 ATAL TÂN

9.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth gefndir i'r Aelodau am y sefydliad, ac esboniodd ei fod yn codi'r mater yn y cyfarfod hwn oherwydd y bydd angen i'r Awdurdod, rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, gael barn ynglŷn â'i gyfraniad i Atal Tân a pharhad ei ymwneud â'r sefydliad. Ar hyn o bryd, nid oedd Cadeirydd gan yr Ymddiriedolaeth, ac roedd y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal ar 20fed Tachwedd.

9.2 Cynigiodd y Prif Swyddog Tân ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr. Cytunodd yr Aelodau, a gofyn i Brif Weithredwr Atal Tân gael ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn rhoi cyflwyniad ar waith Atal Tân ynghyd â'i nodau a'i amcanion.

9.3 **PENDERFYNWYD bwrw ymlaen fel y nodwyd ym mharagraff 9.2.**

RHAN II

10 PRYNU GORSAF AMBIWLANS GLANNAU DYFRDWY

10.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion i'r Aelodau am y cynnig mewn perthynas â'r posibilrwydd o brynu'r orsaf ambiwlans yng Nglannau Dyfrdwy.

10.2 Rhoddodd y PSTC Claydon rywfaint o wybodaeth gefndir i'r Aelodau am orsaf Glannau Dyfrdwy. Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) wedi sefydlu 'Depo Ymbaratoi' yn Dobshill, ac felly nid yw angen defnyddio'r safle yng ngorsaf Glannau Dyfrdwy. Gan fod yr orsaf ambiwlans yn sownd i'r orsaf dân, mae YGAC wedi rhoi'r dewis cyntaf i brynu'r eiddo i GTAGC.

10.3 Byddai caffael yr orsaf ambiwlans yn sicrhau mai GTAGC fydd yn gyfrifol am yr holl safle wedi hynny, gan fod hawliau tramwy y tu ôl i'r orsaf ac i'r ochr.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cyfle i brynu eiddo gorsaf ambiwlans Glannau Dyfrdwy, a chefnogi'r cynnig i fwrw ymlaen i brynu'r eiddo yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13.**

MATER BRYS

11 ADRODDIAD LLAFAR AR BROSIECT WRECSAM

11.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth gefndir i'r Aelodau ynglŷn â phrosiect Wrecsam, a oedd wedi cychwyn yn 2005. Y bwriad oedd codi gorsaf ar gyfer y tri gwasanaeth, sef tân, yr heddlu a'r ambiwlans. Fodd bynnag, roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi tynnu allan o'r prosiect yn Chwefror 2011 gan nad oedd yn diwallu ei anghenion busnes mwyach.

11.2 Rhoddodd y PSTC Claydon hynt y digwyddiadau a'r costau cysylltiedig er 2005, a chrynodeb o'r sefyllfa bresennol. Roedd yr Aelodau wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd mewn cyfarfodydd, ac roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cael eu briffio'n rheolaidd am y datblygiadau diweddaraf.

11.3 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Dirprwy Glerc fod y mater wedi ei drafod dan ran II, ac felly roedd yn fater cwbl gyfrinachol nad oedd i gael ei drafod gyda neb.

11.4 **PENDERFYNWYD bod adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr fel eitem ar yr agenda o dan ran II.**